@chwaraeonrhct
www.chwaraeonrhct.co.uk I www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Datblygu pobl – Carfan Hyfforddi Achlysurol

Mae ein carfan hyfforddi achlysurol yn rhoi gweithlu i ni er mwyn cael rhagor o bobl i wneud rhagor o ymarfer corff, yn fwy aml. Rydyn ni wedi ailgynllunio ein proses recriwtio hyfforddwyr yn ddiweddar i greu gweithlu mwy dibynadwy a all helpu i ddiwallu anghenion ein carfan, ein partneriaid a'n cymunedau.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fe sylwon ni ar ostyngiad yn nifer y ceisiadau gan hyfforddwyr, a bod gan y rhai a oedd yn cyflwyno cais ddiffyg profiad a'r lefel o gymwysterau yr oedden ni wedi arfer â nhw. Un esboniad posibl am hyn fyddai effaith y pandemig covid, gan ein bod ni'n nodweddiadol yn recriwtio hyfforddwyr ifainc o golegau a phrifysgolion. Fe wnaeth y pandemig covid effeithio'n sylweddol ar y sefydliadau hyn ac atal myfyrwyr ym maes chwaraeon rhag cael y profiad ymarferol arferol. Yn hanesyddol, dim ond hyfforddwyr gyda chymhwyster lefel 2 neu'n uwch roedden ni'n eu cyflogi, ond gyda diffyg ceisiadau fe newidion ein meini prawf. Fe addason ni i ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a recriwtio a buddsoddi mewn hyfforddwyr ifainc ag angerdd a chymhelliant i ddatblygu.

Fe ddarparon ni gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, mentora, a chymorth gan gyfoedion, a chreu amgylchedd dysgu iddyn nhw dyfu a llwyddo. Roedd rhai heriau wrth i gamgymeriadau gael eu gwneud gan hyfforddwyr newydd nad oedd gyda nhw'r profiad ac arbenigedd oedd gan hyfforddwyr blaenorol, ond dros amser, lleihaodd y rhwystredigaethau wrth i hyder a sgiliau'r hyfforddwyr dyfu. Mae'r dull newydd yma wedi creu carfan hyfforddi gryf sydd â'r modd i ddarparu mewn amrywiaeth o amgylcheddau gwahanol i ystod o oedrannau a galluoedd. Mae hyn wedi creu rhagor o gyfleoedd i drigolion wneud ymarfer corff. Rydyn ni'n creu rhagor o bartneriaethau ac yn derbyn rhagor o geisiadau am hyfforddwyr i'w cefnogi ar brosiectau, yn enwedig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Rydyn ni hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer yr hyfforddwyr sy'n symud i gyflogaeth amser llawn yn ein sector.

> *"Roedd y plant yn mwynhau'r sesiynau'n fawr. Cefais syniadau hwyl i'w defnyddio. Mae'r plant bob amser yn edrych ymlaen at y sesiwn pan fyddwn ni'n dweud wrthyn nhw fod Chwaraeon RhCT yn ymuno â ni!"* Partner – PIPYN RhCT
>
> *"Mae hyfforddwyr Chwaraeon RhCT yn glod iddyn nhw eu hunain. Maen nhw wedi ein helpu gydag achlysuron a phrosiectau, ac wedi bod yn broffesiynol drwyddi draw, ac wedi creu amgylchedd gwych."* Partner - Athro/Athrawes
>
> *"Mae'r pleser dwi'n ei gael fel hyfforddwr yn rhoi boddhad mawr. Rhoi perchnogaeth dros y sesiynau i'r bobl ifainc, chwarae gyda ffrindiau, eu gweld nhw'n gwenu, ymgysylltu, parchu ei gilydd a pharchu'r staff."* Hyfforddwr
>
> *"Mae gweithio gyda Chwaraeon RhCT wedi bod yn brofiad lle mae modd i fi barhau i ddatblygu ystod eang o sgiliau hyfforddi a datblygu."* Hyfforddwr

**1561** o oriau wedi'u cyflwyno

**42** o gyfleoedd hyfforddi

**7** hyfforddwr bellach mewn cyflogaeth amser llawn

**437** o sesiynau wedi'u cyflwyno

**13** o bartneriaid

Gwerth **£25,752** o incwm wedi'i gynhyrchu

**6** phartner newydd

RHONDDA CYNON TAF